

Ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru

Mai 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddDGCh**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru

Mai 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:

www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd



Jayne Bryant AC
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd



Vikki Howells AC
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Delyth Jewell AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Caroline Jones AC
Annibynnol
Gorllewin De Cymru



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Rhianon Passmore AC
Llafur Cymru
Islwyn

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Siân Gwenllian AC
Plaid Cymru
Arfon



Neil Hamilton AC
UKIP
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jane Hutt AC Llafur
Cymru
Bro Morgannwg



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Jack Sargeant AC
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy



Lee Waters AC Llafur
Cymru Llanelli

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Cyflwyniad.....	10
2. Cefndir.....	11
Buddsoddi a chyngor.....	11
Seilwaith.....	12
Gwerth y diwydiant sgrin yng Nghymru a'r DU.....	12
3. Strategaeth sgrin i Cymru.....	14
Llunio strategaeth ar gyfer y diwydiant sgrin.....	14
Symud o Banel Sector Diwydiannau Creadigol i "Cymru Greadigol".....	15
Tystiolaeth Llywodraeth Cymru.....	17
4. Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r diwydiant sgrin.....	21
Cymhlethdod gwneud cais am gyllid.....	21
Cymorth i gynyrchiadau llai a chynyrchiadau Cymraeg.....	22
Yr angen i gefnogi diwydiant sgrin cynhenid.....	23
Tystiolaeth Llywodraeth Cymru.....	25
5. Sgiliau.....	30
Sicrhau bod Cymru yn meddu ar y sgiliau i gefnogi'r diwydiant.....	30
Yr angen am ddata gweithlu.....	31
Cyfleoedd hyfforddi.....	32
Darparu cyfleoedd castio lleol.....	33
Tystiolaeth Llywodraeth Cymru.....	34
6. Gwyliau ffilm.....	38
7. Cymorth Llywodraeth Cymru i stiwdios ffilm.....	42
8. Camau Nesaf.....	45
Atodiad A.....	46
Atodiad B.....	48

Rhagair y Cadeirydd

Ni fu erioed well amser i wneud ffilmiau a chynyrchiadau teledu mawr yng Nghymru. Dros y degawd diwethaf, mae twf wedi rhagori ar y twf ledled y DU, ac erbyn hyn mae gan Gymru nifer o stiwdios sy'n gwneud cynyrchiadau cyllideb uchel ar gyfer cynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol. O Sherlock a Doctor Who i Sex Education a His Dark Materials, nid oes amheuaeth bod Cymru yn lle ardderchog i wneud cynyrchiadau o ansawdd uchel.

Ond pan ddechreuon ni yr ymchwiliad hwn, nid oedd yn glir beth oedd rhan Llywodraeth Cymru yn y llwyddiant hwn. Yn yr un modd, roedd ganddi gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau a oedd yn buddsoddi mewn cynyrchiadau yng Nghymru: ond nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd hwn yn gyfrwng ar gyfer mewnfuddsoddi neu'n ymgais i dyfu'r diwydiant domestig.

Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, a oedd yn taflu goleuni anghyfforddus ar y ddwy golofn hon o strategaeth ffilm honedig Llywodraeth Cymru. Cawsom ar ddeall fod Llywodraeth Cymru yn y pen draw wedi talu Pinewood i redeg y stiwdio mewn perthynas y gwnaeth swyddogion gyfadeddf nad oedd yn cynnig gwerth da am arian. Roedd Llywodraeth Cymru yn ei chael yn anodd gwario o'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau, a gwelwyd bod ei hamcangyfrifon cychwynnol o adenillion yn rhy ychelgeisiol o lawer.

Clywodd y Pwyllgor mai'r ffactor mwyaf sy'n cyfyngu ar dwf yn y diwydiannau sgrin yng Nghymru yw prinder sgiliau posibl. Mae twf diweddar yn y sector yn dangos bod gennym weithlu medrus, ond yn absenoldeb data da, nid ydym yn gwybod pa sgiliau sydd eu hangen arnom i sbarduno twf yn y dyfodol. Yn syml, nid ydym yn gwybod pa sgiliau nad ydym yn meddu arnynt.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth yn nodi sut y bydd yn mynd â'r sector sgrin i'r lefel nesaf. Mae angen iddi gynnig mwy o eglurder i'r sector ynghylch pa gymorth sydd ar gael, ac at ba ddiben. Mae angen iddi fapio sgiliau ar draws y sector a chynllunio sut i lenwi unrhyw fylchau. Rydym yn croesawu'r cynyrchiadau mawr sydd wedi dod i Gymru – gan wario arian a hyfforddi a chyflogi pobl leol. Ond mae angen gwneud mwy i ddatblygu'r diwydiant cynhenid – i helpu i adrodd straeon o Gymru a all adleisio ar draws y byd.

Mae'r holl arwyddion yn awgrymu y bydd y cynnydd enfawr yn y defnydd o gynnwys fideo ar ddyfeisiau electronig yn parhau i yrru twf yn y diwydiannau sgrin yn rhyngwladol. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru gydbwysu mewnfuddsoddi, twf cynhenid a chymorth sgiliau i sicrhau bod Cymru yn gwneud y gorau o'r cyfle byd-eang hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth sy'n nodi ei gweledigaeth o ran sut y gall diwydiant sgrin Cymru:

- fod yn ddiogel yn ariannol;
- datblygu busnesau bach i fanteisio ar gynyrchiadau mwy o faint;
- denu cynyrchiadau gydag ystod o werthoedd ac amrywiaeth ddiwylliannol;
- cefnogi cynyrchiadau Cymraeg a chynyrchiadau eraill sy'n amlwg yn Cymreig gyda'r bwriad o gynyddu amlygrwydd iaith a diwylliant Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
- cymryd cyfrifoldeb dros nodi a lliniaru bylchau sgiliau drwy ddysgu ffurfiol ac anffurfiol; a sut y caiff cyfleoedd gwaith a dysgu eu hyrwyddo er mwyn sicrhau y gall cronfa dalent amrywiol gael mynediad atynt.

..... Tudalen 20

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru Greadigol:

- yn ymgysylltu'n ffurfiol a chadarn ag arbenigwyr yn y diwydiant; gan gynnwys cynrychiolwyr undebau;
- yn cael digon o adnoddau;
- yn ddigon hyblyg i gymryd risgiau hysbys, ac
- yn meddu ar bolisi clir a thryloyw ar ariannu. Tudalen 20

Argymhelliad 3. Dylai Bwrdd Cyngori Gweinidogol Llywodraeth Cymru gynnwys cynrychiolydd o'r diwydiannau creadigol.....Tudalen 20

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio model cyllido y gellir ei addasu sy'n caniatáu ar gyfer cynyrchiadau o bob maint.....Tudalen 29

Argymhelliad 5. Dylid cynllunio polisi cyllido Llywodraeth Cymru i feithrin diwydiant sgrin cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r opsiwn o'i gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn cyllid lunio cytundebau cydgynhyrchu â chwmnïau yng Nghymru. Dylai'r gofyniad i wario o leiaf 35% o'r gyllideb gynhyrchu "islaw'r llinell" ar gyflenwyr, cast, criw a chyfleusterau lleol fod yn berthnasol i fusnesau sydd wedi'u cofrestru a'u lleoli yng Nghymru.....Tudalen 29

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio model symlach ar gyfer ceisiadau am gyllid sy'n ddeniadol i gynhyrchwyr a chyd-fuddsoddwyr ac sy'n bodloni gofynion diwydrwydd dyladwy.....Tudalen 29

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru lunio polisi cyllido cliriach ar gynrychiadau Cymraeg a ddylai gyd-fynd â **Strategaeth y Gymraeg 2050**.
..... Tudalen 29

Argymhelliad 8. Dylai S4C nodi ei blaenoriaethau o ran comisiynu ffilmiau Cymraeg a sut y mae wedi cael gafael ar yr holl gyllid sydd ar gael i wneud hynny.
..... Tudalen 29

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Cymru Greadigol lunio strategaeth sgiliau sy'n:

- darparu gwybodaeth am y gweithlu medrus yn niwydiant sgrin Cymru;
- archwilio'r hyfforddiant a'r lleoliadau gwaith sy'n cael eu cynnig ar bob lefel o addysg, gan gynnwys ysgolion;
- nodi sut y caiff bylchau sgiliau eu llenwi; a
- cheisio mewnbwn gan undebau a chyflogwyr ar anghenion sgiliau'r diwydiant yn y dyfodol. Tudalen 37

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer cynrychiadau mawr yn cynnwys gofyniad i gynnal o leiaf un clyweliad lleol.
..... Tudalen 37

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cwota ar gyfer talent lleol ar sgrin ar gyfer cwmnïau sy'n derbyn cyllid..... Tudalen 37

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gall eu cynlluniau prentisiaeth gael eu defnyddio gan y diwydiant sgrin..... Tudalen 37

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid priodol i gefnogi gwyliau ffilm yng Nghymru drwy ffrwd ariannu benodol. Dylai'r arian hwn gael ei hyrwyddo'n eang a dylai gynnwys bwrsariaethau ar gyfer gwneuthurwyr ffilm o Gymru i fynychu gwyliau ffilm rhyngwladol.....Tudalen 40

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi meini prawf penodol ar gyfer y canlyniadau y maent yn eu cefnogi wrth ddarparu cyllid ar gyfer gwyliau ffilm..... Tudalen 41

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau sgrin yn cael eu cynnwys mewn teithiau masnach rhyngwladol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo ein diwydiant yn rhyngwladol..... Tudalen 41

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o eglurder a thryloywder wrth gyfathrebu gyda Phwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fyddant yn trafod mentrau tebyg yn y dyfodol..... Tudalen 44

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch:

- y ffigurau diweddaraf o ran gwariant ac elw ar fuddsoddiad o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau;
- yr incwm rhent a dderbynnir gan Bad Wolf a sut mae'n cymharu ag unrhyw gostau parhaus a ddaw i ran Llywodraeth Cymru, ac
- a yw safle Gwynllŵg bellach yn cynhyrchu elw i Lywodraeth Cymru ai peidio. Tudalen 44

1. Cyflwyniad

- 1.** Mae gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Pwyllgor) gylch gwaith sy'n cynnwys darlledu a'r cyfryngau, y Gymraeg, y celfyddydau, treftadaeth a'r diwydiannau creadigol.
- 2.** Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn i sicrhau eglurder ar nodau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru, a thryloywder ynghylch pam a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y maes hwn.
- 3.** Ym mis Mawrth 2018, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i glywed gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol. Defnyddiwyd yr adborth o'r digwyddiad hwn i lunio cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad ag iddo ffocws.
- 4.** Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad am ymatebion ysgrifenedig rhwng 14 Mawrth 2018 a 18 Ebrill 2018, gan ofyn i bobl wneud sylwadau ar:
 - Y gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiannau ffilm a theledu yng Nghymru, gan gynnwys:
 - Effaith economaidd, a sut y mae'r effaith hon wedi'i gwasgaru ledled Cymru;
 - Effaith ddiwylliannol, gan gynnwys ar yr iaith Gymraeg;
 - Gwerth am arian;
 - Sut y gall Cynllun Gweithredu Economaidd newydd Llywodraeth Cymru effeithio ar gefnogaeth i'r sector.
 - Sut mae Ffilm Cymru, y BFI ac eraill yn cefnogi'r sector, a sut mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes;
 - Y gefnogaeth a roddir i ddatblygu sgiliau a mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y diwydiant, ac a oes digon o ddata i fapio'r sgiliau presennol.
- 5.** Daeth 34 o ymatebion ysgrifenedig i law. Clywodd y Pwyllgor gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiannau sgrin a Llywodraeth Cymru yn ystod saith cyfarfod yn ystod Haf 2018. Hefyd, ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â stiwdios Pinewood a stiwdios Bad Wolf. Mynychodd yr aelodau ddigwyddiad a drefnwyd gan "Into Film" yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter lle y buont yn gwyllo ffilmiau byr gan fyfyrwyr.

2. Cefndir

Buddsoddi a chyngor

6. Mae gan Lywodraeth Cymru Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn,¹ a all ddarparu cyllid masnachol (benthyciadau a grantiau) ar gyfer cynyrchiadau teledu a ffilm. Mae amodau ynghlwm wrth y cyllid hwn, sy'n cynnwys bod o leiaf 50% o'r hyn a gynhrychir yn cael ei saethu yng Nghymru, a rhaid i 35% o'r gyllideb gynhrychu islaw'r llinell² gael ei gwario ar "Wariant Cynhrychu Cymreig" (sef gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau a gweithwyr llawrydd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n gweithio yng Nghymru). Bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfran o unrhyw elw masnachol sy'n deillio o brosiectau ffilm a theledu, boed hynny mewn elw o'r swyddfa docynnau neu lle bo rhaglenni teledu yn cael eu dosbarthu'n fyd-eang.

7. Erbyn mis Tachwedd 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £12 miliwn mewn prosiectau ffilm a theledu, a gefnogir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Ar y pryd, cyfanswm yr arian a adenillwyd o'r buddsoddiad hwnnw oedd £3.7m.³

8. Ar wahân i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, ceir Cronfa Sgrin Cymru: cynllun hysbysedig sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i gefnogi prosiectau clyweledol yng Nghymru. Ym mis Awst 2017, dywedodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

"Since the introduction of the 2015-20 Wales Screen Fund notification, 21 productions have been awarded a total of £9,475,643 funding. These projects have achieved over £75m spend on Welsh Goods and services."

9. Darparwyd rhestr o'r dyfarndaliadau hyn mewn llythyr at Suzy Davies AC ar 30 Tachwedd 2017.⁴

¹ www.weareukfilm.com/sources-of-funding/fund/welsh-governments-media-investment-budget

² Mae gwariant "islaw'r llinell" yn golygu'r gwariant ar gynhrychu'r ffilm, yn hytrach na'r cyfeiriad creadigol (hynny yw, nid gwariant ar, er enghraifft, y sgriptiwr, y cynhyrhydd, y cyfarwyddwr a'r actorion).

³ Llywodraeth Cymru, Cais am Wybodaeth - ATISN 11518 - Buddsoddi yn y Cyfryngau

⁴

www.cynulliad.cymru/written%20questions%20documents/information%20further%20to%20written%20assembly%20questions%2074054%20and%2074098/170816-74054.%2074098-e.pdf

10. Gweithiodd Pinewood Pictures gyda chwmnïau cynhyrchu i strwythuro bargeinion masnachol a ystyriwyd yn addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (daeth y trefniant hwn i ben ym mis Medi 2017).

11. Adeg yr ymchwiliad, roedd gan Lywodraeth Cymru hefyd Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau, sef panel annibynnol o arbenigwyr a oedd yn gyfrifol am ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar fuddsoddiadau'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Roedd y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar ddarparu cyllid arall ar gyfer prosiectau ffilm a theledu gwerth £1m neu fwy.⁵

12. Mae Sky Vision – cangen gynhyrchu a dosbarthu Sky – wedi ymuno â Llywodraeth Cymru i gefnogi cynyrchiadau teledu annibynnol yng Nghymru gan fuddsoddi £400,000 mewn cyllid ar gyfer rhaglenni ffeithiol a rhaglenni adloniant newydd.

13. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn nodi:

“Dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae cynyrchiadau ffilm a theledu sy'n cael eu ffilmio yng Nghymru ac yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru wedi gwario dros £100 miliwn yng Nghymru.”⁶

Seilwaith

14. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer stiwdios ffilm a theledu yng Nghymru, gan gynnwys Stiwdio Blaidd Cymru ym Mae Caerdydd; Stiwdio Pinewood Cymru yng Ngwynllŵg; Stiwdio Bae Abertawe a Stiwdio Dragon ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwerth y diwydiant sgrin yng Nghymru a'r DU

15. Er 1999, mae gwerth ychwanegol gros y sector cynhyrchu rhaglenni teledu, fideo a ffilm yng Nghymru wedi tyfu o £59 miliwn i £187 miliwn yn 2016. Mae hyn yn gynydd o 217%. Yn y DU gyfan, mae gwerth ychwanegol gros yn y maes hwn wedi cynyddu o £5.15 biliwn yn 1999 i £9.49 biliwn yn 2016. Mae hyn yn gynydd o

⁵ <https://gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/creative-industries/media-investment-panel/?lang=cy>

⁶ <https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/creativeindustries/?lang=cy>

84%. Rhwng 1999 a 2016, mae gwerth ychwanegol gros Cymru yn y maes hwn wedi cynyddu o 1.1% o gyfanswm y DU i 1.8% o gyfanswm y DU.

3. Strategaeth sgrin i Gymru

Mae angen strategaeth diwydiannau creadigol ar Gymru i lansio'r degawd nesaf o gefnogaeth i'n diwydiannau sgrin. Mae angen inni symud o sefydlu ein diwydiant i gynnal sector annibynnol sy'n cystadlu'n rhyngwladol ar y lefel uchaf.

Llunio strategaeth ar gyfer y diwydiant sgrin

16. Pwysleisiodd pawb y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'r ymchwiliad hwn yr angen i gynnal ac adeiladu ar y momentwm yn niwydiant sgrin Cymru. Galwodd rhanddeiliaid ar Lywodraeth Cymru i nodi strategaeth glir a fydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

17. Er enghraifft, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, canmolodd Screen Alliance Wales y penderfyniad i roi'r diwydiannau creadigol yn isadran economaidd y Llywodraeth a sefydlu tîm sector creadigol arbenigol gyda gwybodaeth arbenigol. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

“Recently however, there is a general perception that there is no clear strategy to address the needs of the TV & Film Industry. Projects have been funded randomly based on the profile of the company but not looking at long term sustainable legacy for Wales.”⁷

18. Dywedodd Owen Evans o S4C:

“I think one of the things that I've probably been looking forward to is working with the Government on, you know, what is the industrial strategy – rather than having what are very welcome but relatively passive investment vehicles, into, you know, ‘What is the structure for Wales? ... there are then questions about how we sustain the economy, how we sustain the industry and how we locate that industry.’”⁸

19. Dywedodd Amanda Rees o S4C y dylai'r strategaeth sicrhau bod prosesau ariannu yn gyflym ac yn addas i'r diwydiant, amlinellu sut mae diwydiant Cymru

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Screen Alliance Wales

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 35

yn bwydo i'r economi ehangach ar lefel y DU ac yn rhyngwladol a sicrhau mynediad cyfartal i'r rhai sy'n ceisio cael mynediad at gyllid.⁹

20. Canmolodd Rhodri Talfan Davies o'r BBC ymyrraeth Llywodraeth Cymru i gynyddu seilwaith a gallu a dywedodd mai'r her sgiliau a phobl fydd yr un allweddol o ran cynnal momentwm y blynyddoedd diwethaf.¹⁰

21. Roedd llawer o'r rhai y buom yn siarad â nhw yn dymuno gweld Llywodraeth Cymru yn ymateb i Fargen Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth y DU, a nodi cyfeiriad polisi tebyg i Gymru.

22. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fargen y Sector Diwydiannau Creadigol.¹¹ Fe'i disgrifir fel cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant a gwblhawyd â Chyngor y Diwydiannau Creadigol sy'n ceisio datgloi twf ar gyfer busnesau creadigol.¹² Mae'n nodi polisiau allweddol sy'n ceisio cynyddu allforion, cynnal twf, hybu swyddi, gwneud y diwydiannau'n fwy cynrychiadol o gymdeithas y DU a lleihau'r bwlch rhwng busnesau yn ne ddwyrain Lloegr a gweddill y DU.

23. Soniodd rhanddeiliaid am ba mor gynhwysfawr oedd y ddogfen. Er enghraifft, dywedodd Rosina Robson o PACT:

"I think we shouldn't underestimate the fact that this is, really, the first time that the Government has, within an industrial strategy, recognised the creative industries as being a really important part...I think we'd welcome the Welsh Government engaging with what's on offer and promoting...some of the very valuable pots of funding."¹³

Symud o Banel Sector Diwydiannau Creadigol i "Gymru Greadigol"

24. Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru yn dilyn dull sectoraidd o ran datblygu economaidd: roedd ganddi 9 sector blaenoriaeth, ac roedd y diwydiannau creadigol yn un ohonynt. Roedd gan bob sector blaenoriaeth banel sector a oedd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru. Cadeirydd [panel y sector](#)

⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 37

¹⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 40

¹¹

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/695097/creative-industries-sector-deal-print.pdf

¹² www.gov.uk/government/publications/creative-industries-sector-deal-deal

¹³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 246

diwydiannau creadigol oedd Ron Jones, sef sylfaenydd a chadeirydd gweithredol cwmni cyfryngau Tinopolis.

25. Ym mis Rhagfyr 2017, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y wybodaeth y diweddariad a ganlyn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad:

“Fel rhan o’r adolygiad o gyrff cynghorol yn fy mhortffolio, mae trafodaethau wedi’u cynnal gyda chadeiryddion ac aelodau amryw o grwpiau gan gynnwys Paneli Sector a Byrddau Ardaloedd Menter. Mae’r trafodaethau hyn yn parhau a byddant yn arwain at nifer o grwpiau yn dirwyn i ben, yn newid eu ffurf neu’n parhau, yn unol â chanlyniadau’r adolygiad. Bydd nifer o grwpiau, gan gynnwys Paneli Sector, yn cael eu disodli gan Fwrdd Cynghori Gweinidogol troswaol, sef grŵp tynn o unigolion, ac iddo ffocws, a fydd yn darparu cyngor strategol ar ddatblygu economaidd. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach am hyn ac am y strwythur cynghori ehangach a fydd yn ei ategu, yn gynnar yn 2018.”

26. Cyhoeddwyd aelodaeth y Bwrdd Cynghori Gweinidogol ym mis Mai 2018 ac nid yw’n ymddangos bod unrhyw gynrychiolaeth o’r diwydiannau creadigol ar y Bwrdd.¹⁴

27. O ran symud i ffwrdd o Baneli Sector, cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr angen i gadw arbenigedd yn y diwydiant. Er enghraifft, pan ofynnwyd a fyddai gan Lywodraeth Cymru ddigon o gyngor mewnol pe bai’r panel hwn yn cael ei ddirwyn i ben, dywedodd Natasha Hale o Bad Wolf – a oedd mewn uwch-rôl yn nhîm diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru yn flaenorol – yn bendant ddim.¹⁵

28. Rhybuddiodd rhanddeiliaid hefyd y dylai unrhyw olynydd i Banel y Sector Diwydiannau Creadigol feddu ar arbenigedd eang. Er enghraifft, dywedodd Simon Curtis o Equity fod rhwystredigaeth gan fod yr undebau, yn gyffredinol yn cael eu heithrio o unrhyw banel ymgynghorol.¹⁶ Hefyd, galwodd Luned Whelan o TAC am gyfraniad “gan gynhyrchwyr sy’n gweithio ar hyn o bryd fel bod gorolwg real dros y diwydiant”.¹⁷

¹⁴ <https://gov.wales/newsroom/businessandconomy/2018/180521-new-economic-contract-for-businesses-seeking-welsh-government-support/?lang=cy>

¹⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 16 Mai 2018, para 363

¹⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Mehefin 2018, para 268

¹⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 298

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

29. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Llywodraeth Cymru, ers i'r diwydiannau creadigol gael eu cydnabod fel sector blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn 2010, eu bod wedi canolbwyntio ar ddod â ffilm a theledu gwerth uchel i Gymru drwy gymhellion ariannol gan Lywodraeth Cymru, sicrhau'r cydweithrediad â Pinewood drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau ac ariannu prosiectau cyfryngau digidol gwerth uchel. Bu ymdrech hefyd i ddatblygu ystod o gyfleusterau stiwdio ar hyd coridor yr M4.

30. Mae'n disgrifio'r canlyniadau:

“Mae'r dull hwn wedi llwyddo, gyda Chymru'n cystadlu go iawn ym maes dramâu teledu o'r safon uchaf erbyn hyn; mae'r ymholiadau a nifer y cynyrchiadau sy'n ffilmio yma wedi codi'n sylweddol. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn yr arian mae'r cynyrchiadau hyn yn ei wario yng Nghymru. Y llynedd, (2017-18), dyblodd gwariant cynyrchiadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.”¹⁸

31. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn cydnabod bod angen newid strategaeth:

“Wrth symud ymlaen mae angen i ni ystyried beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol yng ngoleuni cyd-destun tirwedd newidiol y diwydiant. Mae angen symudiad strategol i symud o'r cyllid cyfredol i ffilm a theledu traddodiadol, a symud tuag at gyllid ar gyfer 'sgrin' (a allai gynnwys cynnwys a phlatfformau fideo-ar-alw, gemau ac animeiddio).”¹⁹

32. Mae'n bwriadu blaenoriaethu:

- datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi;
- gwella rhwydweithiau a mynediad at gyngor arbenigol dan arweiniad y diwydiant;
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol yn well i ddarparu gwasanaethau; cymorth pwrpasol ar gyfer cael gafael ar gyfalaf (preifat a chyhoeddus);

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

- gwella gallu busnesau creadigol i greu, cadw a defnyddio eu heiddo deallusol yn economi Cymru.

33. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy swyddogaeth ar wahân o'r enw Cymru Greadigol. Bydd yn darparu dull mwy cynhwysfawr a chymorth pwrpasol i helpu twf busnesau, ac yn cynnig gwasanaeth symlach, deinamig ac arloesol i'r sector hwn.²⁰

34. Ar 12 Gorffennaf 2018, dywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon:

“Ond, rydw i'n credu y bydd creu corff newydd, Cymru Greadigol, o fewn y Llywodraeth yn rhoi cyfle inni gysoni beth sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn ogystal â gweithredu mewn meysydd ehangach.”²¹

“Y bwriad ydy y bydd gan Cymru Greadigol fwrdd. Bydd cadeirydd yn cael ei recriwtio yn fuan...bydd yna brif weithredwr. Mae nifer yr aelodau eto i'w benderfynu.”²²

35. Dywedodd hefyd y bydd “gweithgaredd” y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a'r Panel Sector Diwydiannau Creadigol yn “trosglwyddo'n uniongyrchol i Cymru Greadigol”.²³ O ran y gyllideb, dywedodd y bydd corff yn cael ei greu o fewn y Llywodraeth fydd yn gwahodd ac yn penodi pobl i'r Llywodraeth a chanddynt brofiad masnachol a phrofiad arall sylweddol yn y sector i weinyddu'r cyllidebau buddsoddi.²⁴

Ein barn ni – strategaeth sgrin i Gymru

Rydym wedi gweld twf trawiadol yn y diwydiant sgrin yng Nghymru. Fodd bynnag, nawr ei fod ar sylfaen gadarn, mae angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r sector i gymryd y cam nesaf.

Dywedodd cynrychiolwyr y diwydiant wrthym fod angen dybryd i'r Llywodraeth bennu cyfeiriad strategol ar gyfer diwydiant sgrin Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi'n hysbysu o'r bwriad i sefydlu “Cymru Greadigol” a ddisgrifir fel cyfrwng i wella rhwydweithiau, gwella'r gadwyn cyflenwi sgiliau,

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

²¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 280

²² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 281

²³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 286

²⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 301

darparu cymorth pwrpasol ar gyfer mynediad at gyfalaf a helpu busnesau i fanteisio ar eu cyfalaf deallusol. Ers cyhoeddi creu'r corff newydd hwn ym mis Gorffennaf 2018 ni chafwyd rhagor o fanylion am sut y bydd yn gweithio, aelodau'r Bwrdd, y gyllideb na'r amserlen ar gyfer ei lansio. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â swyddogaethau gweithredol a strategol Cymru Greadigol. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant eu bod mewn perygl o golli cyfleoedd heb y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cais am gyllid.

Fel y mae, bydd Cymru Greadigol yn darparu cymorth gwerthfawr i gwmnïau unigol, ond nid yw'n cyflawni'r swyddogaeth strategol y gofynnir amdani.

Mae angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar ei gweledigaeth ar gyfer tyfu'r diwydiant sgrin ar gyfer y degawd nesaf. Mae angen iddi ddatgan ei blaenoriaethau a sut y mae'n bwriadu blaenoriaethu cyllid rhwng cymorth ar gyfer cynyrchiadau, seilwaith, gweithlu medrus, hyrwyddo cynnwys Cymreig dramor a datblygu diwydiant sgrin cynhenid.

Bydd darparu gweledigaeth glir yn galluogi'r holl randdeiliaid i sicrhau bod eu modelau busnes a'u blaenoriaethau yn gydnaws er mwyn eu galluogi i fanteisio ar y cymorth Cymreig a gynigir.

Fel cam cyntaf, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i ddogfen Bargen Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth y DU, yn manylu ar sut y gall Cymru fanteisio ar Fargen y Sector.

Nodwn ddatganiad y Dirprwy Weinidog ar Cymru Greadigol a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2019. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi rhagor o fanylion am drefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a chyllid. Mae rhanddeiliaid yn parhau i fod yn y tywyllwch ynghylch cael gafael ar gymorth ar gyfer prosiectau. Byddwn yn parhau i ofyn am ragor o wybodaeth ac yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i fwrw ati gyda'r gwaith yn y maes hwn fel mater o flaenoriaeth.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth sy'n nodi ei gweledigaeth o ran sut y gall diwydiant sgrin Cymru:

- fod yn ddiogel yn ariannol;
- datblygu busnesau bach i fanteisio ar gynyrchiadau mwy o faint;
- denu cynyrchiadau gydag ystod o werthoedd ac amrywiaeth ddiwylliannol;

- cefnogi cynyrchiadau Cymraeg a chynyrchiadau eraill sy'n amlwg yn Gymreig gyda'r bwriad o gynyddu amlygrwydd iaith a diwylliant Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
- cymryd cyfrifoldeb dros nodi a lliniaru bylchau sgiliau drwy ddysgu ffurfiol ac anffurfiol; a sut y caiff cyfleoedd gwaith a dysgu eu hyrwyddo er mwyn sicrhau y gall cronfa dalent amrywiol gael mynediad atynt.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru Greadigol:

- yn ymgysylltu'n ffurfiol a chadarn ag arbenigwyr yn y diwydiant; gan gynnwys cynrychiolwyr undebau;
- yn cael digon o adnoddau;
- yn ddigon hyblyg i gymryd risgiau hysbys, ac
- yn meddu ar bolisi clir a thryloyw ar ariannu.

Argymhelliad 3. Dylai Bwrdd Cynggori Gweinidogol Llywodraeth Cymru gynnwys cynrychiolydd o'r diwydiannau creadigol.

4. Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r diwydiant sgrin

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi arwain at lwyddiannau nodedig. Fodd bynnag, mae rhai yn y diwydiant yn teimlo'n rhwystredig ynghylch cymhlethdod y broses o wneud cais am gyllid. Mae galw am gyllid mwy uniongyrchol, wedi'i dargedu at gynyrchiadau Cymraeg a chynnwys Cymreig amlwg arall.

Cymhlethdod gwneud cais am gyllid

36. Cynhaliodd y Pwyllgor weithdy ar gyfer y rhai sy'n rhan o'r diwydiant ym mis Mawrth 2018. Nododd rhanddeiliaid y pwyntiau ganlyn am Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru:

- Mae Llywodraeth Cymru yn cael trafferth gwario'r gyllideb;
- Mae'r broses benderfynu yn aneglur;
- Mae'n canolbwyntio ar elw ariannol, ac mae'n mynnu elw uchel ar fuddsoddiad, felly mae'n annhebygol iawn y bydd yn darparu cyllid i gynhyrchwyr bach annibynnol.

37. Disgrifiodd Roger Williams o Joio – a gafodd arian o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, ar gyfer y ddrama drosedd ddwyieithog BANG – y broses o wneud cais am gyllid o'r Gyllideb fel un hirfaith a hynod rwystredig.²⁵ Dywedodd nad oedd y dosbarthwyr a'r cyfreithwyr a oedd yn rhan o'r cynhyrchiad erioed wedi dod ar draws cytundeb mor gyfyngol.²⁶ Dywedodd Ed Talfan o Severn Screen, cynhyrchydd drama drosedd ddwyieithog Y Gwyll/Hinterland, fod telerau'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn rhy feichus i bartïon eraill a oedd yn rhan o gyllido'r cynhyrchiad, ac roedd hynny wedi gwneud iddo benderfynu peidio â gwneud cais.²⁷

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Joio

²⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 131

²⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 130

38. Siaradodd Pauline Burt, Prif Weithredwr Ffilm Cymru, am brofiadau cynhyrchwyr ffilm o gael gafael ar gyllid o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a natur drylwyr y broses archwilio:

“It’s quite a complex process is my understanding of it. It takes quite a long time for them to go through it, and it’s fairly administrative in its nature.”²⁸

Cymorth i gynyrchiadau llai a chynyrchiadau Cymraeg

39. Clywodd y Pwyllgor fod canfyddiad nad yw ffilmiau Cymraeg yn fasnachol hyfyw ac felly mae'n anos iddynt gael cyllid. Dywedodd Roger Williams o Joio:

“Pan wnes i gysylltu'n wreiddiol gyda Pinewood, er enghraifft, cefais i wybod na fydden nhw'n rhoi arian i ni, siŵr o fod, gan fod y prosiect yn y Gymraeg. Nid yw'r Gymraeg yn fasnachol.”²⁹

40. Aeth ymlaen i alw am gyllid wedi'i dargedu ar gyfer ffilmiau Cymraeg:

“Mae arian sydd gan S4C wedi rhewi; nid oes llawer o bobl mas yna yn y byd sydd am fuddsoddi mewn prosiectau Cymraeg eu hiaith. Mae e'n realiti. Mae gwerth masnachol project yn y Saesneg llawer, llawer yn fwy a dyna'r realiti. Felly, os ym ni am sicrhau ansawdd gwaith yn y Gymraeg, rydw i'n meddwl y byddai cronfa sydd yn edrych ar raglenni sydd yn cynnwys y Gymraeg yn ofnadwy o ddefnyddiol i bobl fel fi, sydd am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.”³⁰

41. Dadleuodd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn lobbïo Llywodraeth y DU i ganolbwyntio mwy ar gefnogi ieithoedd lleiafrifol drwy eu cyllid ac ar gyfer gostyngiadau treth i waith sydd mewn iaith leiafrifol neu yn un o ieithoedd brodorol y DU. Dywedodd y byddai hynny'n help mawr, yn enwedig pan mae cyllideb S4C wedi'i rhewi.³¹

42. Dywedodd Catryn Rasamut o ie ie productions fod angen cael ffocws rhyngwladol ond bod angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig os yw'r

²⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 18 Ebrill 2018, para 219

²⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 119

³⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 166

³¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 84

cynhyrchiad yn y Gymraeg. Mater i Lywodraeth Cymru yw cefnogi'r diwydiant i gyflwyno Cymru i gynulleidfa ryngwladol.³²

43. Er enghraifft, dywedodd Tom Ware o Brifysgol De Cymru fod gan ddiwydiannau sgrin yn arbennig fynegiant diwylliannol na ellir ei fesur sy'n golygu bod adennill buddsoddiad yn anodd iawn mewn sawl ffordd. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod hi'n anoddach ariannu gwaith yn y Gymraeg.³³ Dywedodd hefyd fod buddsoddi mewn cynyrchiadau Cymraeg yn orddibynnol ar S4C ar adeg pan mae ei chyllideb yn cael ei thorri.

44. Dywedodd Catryn Ramasut wrth y Pwyllgor fod angen mynediad at gyllidebau mwy i alluogi cynnwys yn y Gymraeg i gystadlu'n rhyngwladol. Dywedodd:

"I think it's important that we're all internationally focussed as well... whilst BBC Wales and S4C want to create content... that can be shown on Netflix and Amazon and be bought internationally, that brings with it a much higher price tag... you have to be spending over £1 million, but the type of productions that we're making are still expected to compete in an international market... on a third of the budget..."³⁴

Yr angen i gefnogi diwydiant sgrin cynhenid

45. Roedd tystion yn cwestiynu a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i dyfu diwydiant sgrin cynhenid Cymru. Dywedodd Pauline Burt wrth y Pwyllgor fod y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau sy'n canolbwyntio ar yr ochr fasnachol wedi'i hanelu'n fwy naturiol at gynyrchiadau ar raddfa fawr a rhai hirdymor a mewnfuddsoddiadau yn hytrach nag adeiladu sector sgrin Cymru o'r gwaelod i fyny.³⁵

46. Roedd cynhyrchwyr ffilm yn pryderu bod canfyddiad ffug bod ffilmiau diwylliannol a chynyrchiadau mawr ar y naill ben a'r llall o'r sbectrwm ariannu. Dywedodd Michael Gubbins, Cadeirydd Ffilm Cymru:

³² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 172

³³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 373

³⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 171

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru

“What I worry about is the attitude that ‘We do the small cultural stuff and film is this big business over here.’ Those of us who work in the business on an international level – that’s not the way it works.”³⁶

47. Dadleuodd y dylai mewnfuddsoddi gael ei anelu at sicrhau bod busnesau bach yn gallu tyfu a datblygu eu gwaith ar sail ryngwladol sydd wedyn yn eu galluogi i ddringo'r ysgol.³⁷

48. Cytunodd Jane Tranter, o Bad Wolf, fod bwlch yn y canol y dylid rhoi sylw iddo:

“We have to ensure that if there is a genuine appetite to grow film and television in Wales, then you have to do it from the bottom up. You have to employ some kind of top bits in order to grow from the bottom and create the ecology in the first place.”³⁸

49. Mae'r Pwyllgor wedi clywed nifer o awgrymiadau ynghylch sut y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r diwydiant sgrin lleol yn well. Mae Tom Ware wedi dadlau dros newid strategaeth i gyflawni'r twf hwn. Dywedodd fod y strategaeth, fel ag yr oedd, yn hynod o lwyddiannus o ran sicrhau mewnfuddsoddi, a dylid canmol hynny, ond mae wedi bod yn llawer llai llwyddiannus o ran tyfu cwmnïau cynhyrchu cynhenid yng Nghymru a'u cefnogi i gamu i fyny.³⁹

50. Galwodd y cwmnïau cynhyrchu o Gymru, “Truth Department” ac “ie ie Productions” ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer cynyrchiadau llai na'r rhai sy'n gallu gwneud cais i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, yn seiliedig ar eu gwerth diwylliannol yn ogystal â'u gwerth economaidd.

51. Dywedodd Ron Jones, Cadeirydd Tinopolis ac aelod o'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau:

“I’m not convinced that the entire cultural remit can be met by the economics brief, and I think there is a gap at the moment in the funding made available... that ensures that we don’t miss out on the opportunity to do those things that we need to do for cultural reasons, not for economic. Now, I believe that the linkage between culture and economy is actually quite a close one, and you can get advantages from Government subsidy of any culture. I don’t think we’ve got the balance

³⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 18 Ebrill 2018, para 212

³⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 18 Ebrill 2018, para 212

³⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 16 Mai 2018, para 353

³⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 338

right. But, you know, what is economic and what is culture? Bear in mind that most of what's been achieved in Wales or in the UK in the creative industries is fundamentally as a result of Government interference and Government policy."⁴⁰

52. Gofynnodd eraill - megis Paul Higgins o Dragon ac Ed Talfan o Severn Screen - a ddylai amod fod ynghlwm wrth gyllid cyhoeddus a roddir i gwmnïau cynhyrchu mawr i ddweud bod y rhaid iddynt greu cytundebau cyd-gynhyrchu gyda chwmnïau cynhyrchu lleol, llai o faint.

53. Awgrymodd yr actor Julian Lewis Jones a'r cyfarwyddwr Euros Lyn y dylai cyllid fod yn amodol ar gyflogi cast neu uwch aelodau o'r criw o Gymru.

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

54. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi:

"Mae ein cymorth yn amodol ar fodloni amryw o feini prawf, gan gynnwys yr angen i ddangos marchnad ryngwladol, gwario swm sylweddol o'r gyllideb gynhyrchu yng Nghymru a chryfder yr elw economaidd tebygol. Fodd bynnag, prif nod holl gymorth Llywodraeth Cymru yw cryfhau'r sector ffilm a theledu yng Nghymru trwy sicrhau bod pobl Cymru, lleoliadau Cymru a chwmnïau Cymru'n elwa trwy unrhyw fuddsoddiadau a wneir...

Disgwylir i brosiectau cynhyrchu sy'n derbyn cyllid grant [gan Gyllid Busnes/Cronfa Sgrin Cymru] wario swm sylweddol o arian ar gyflenwyr, cast, criw a chyfleusterau lleol h.y. 'gwariant ar Gymru'...

Ar gyfer cynrychiadau a gefnogir trwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, y meini prawf hyd yma yw bod rhaid i brosiectau gyflawni 50% o'i brif ffotograffiaeth yng Nghymru a gwario o leiaf 35% o'u cyllideb ar wariant lleol islaw'r llinell."⁴¹

55. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod swyddogion:

"...wedi bod yn archwilio sut i ddiwygio cyfrifiadau gwerth am arian y sector a'r sail resymegol dros gyllid ar gyfer ffilm a theledu i

⁴⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 20 Mehefin 2018, para 47

⁴¹ Gellir diffinio gwariant islaw'r llinell fel yr holl gostau cynhyrchu ac eithrio'r doniau creadigol - megis Actorion, Cyfarwyddwr, Cynhyrchwyr ac Awduron o'r criw arall.

adlewyrchu'n well newidiadau yn y farchnad ac i osod sylfaen gadarn ar gyfer cymorth i'r sector yn y dyfodol trwy Cymru Greadigol.”

56. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, ers 2011, bod Llywodraeth Cymru – ar y cyd ag S4C – wedi cefnogi 14 o gynyrchiadau Cymraeg, gyda chyllid cysylltiedig o dros £2.3 miliwn yn cael ei gynnig.

57. Wrth gael ei holi, yn y cyfarfod ar 20 Mehefin, ynglŷn ag a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i ddarparu cymorth i gynyrchiadau ar sail rhinwedd ddiwylliannol yn hytrach nag elw economaidd, dywedodd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Buddsoddi:

“how do you bridge the gap between official art, the subsidised arts, which are often associated with a high level of cultural value, and commercial arts, which can be universally culturally acceptable, often global, which are associated with a lower degree of cultural value, but which appeal, perhaps, to a more global audience? ... That’s a real key question, I think, at the moment, and although academics have been deliberating over this for some time, I’m not sure that politicians have.”⁴²

58. Yn yr un cyfarfod, dywedodd Dafydd Elis-Thomas, y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon:

“But I don’t accept that there is a distinction between the cultural and the material in these matters. We’re dealing with businesses, we’re dealing with industries, but we are also dealing with a framework in which Government may invest in order to ensure that cultural objectives are being reached within the media sector in a way that generates business as well as generating an improved cultural product. The product is cultural, but the way it’s produced has to be commercial, whether it’s through direct investment from companies or capital raised on the market, or whether it’s through an element of Government support.”⁴³

Ein Barn Ni – Cyllid

Hoffai'r Pwyllgor gymeradwyo pawb sy'n gweithio yn y diwydiant cynhyrchu ffilm a theledu mawr yng Nghymru am godi proffil y wlad drwy eu gwaith caled a'u creadigrwydd.

⁴² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 20 Mehefin 2018, para 326

⁴³ Cyfarfod PDGC 20 Mehefin 2018, para 313

Ni fyddai'r cynnydd a wnaed yn y diwydiant hwn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth y Llywodraeth drwy fuddsoddiad ariannol.

Byddai'r drefn o ddarparu cefnogaeth ariannol yn awr yn elwa ar adolygiad drwyddi draw o'i nodau a'i amcanion. Clywodd y Pwyllgor, yn ogystal â chefnogi cynyrchiadau â chyllidebau mawr a thalent sy'n hawlio'r penawdau, bod lle hefyd i gefnogi cynyrchiadau cynhenid llai. Yn bwysicaf oll, mae'n hanfodol sicrhau bod y gefnogaeth yno hefyd ar gyfer cynyrchiadau a fydd yn tyfu ein diwydiant o'r gwaelod i fyny. Rhaid inni sicrhau nad yw Cymru yn colli talent ac arbenigedd cynhyrchu gan nad oes modd i gwmnïau llai dyfu.

Hyd yn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar ddenu prosiectau mewnfuddsoddi ar raddfa fawr. Nawr bod gennym y seilwaith a'r profiad, mae angen inni edrych ar dyfu ein diwydiant cynhenid.

Cefnogaeth i gynyrchiadau Gymraeg

Mae strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050 – yn dweud bod angen inni “ehangu lle'r Gymraeg yn y byd, a gwneud mwy i ddatlu'r Gymraeg fel rhan allweddol o'n diwylliant cyfoes”. Credwn fod cefnogaeth i ffilmiau Cymraeg yn rhan hanfodol o'r ymdrech hon.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad polisi clir sy'n sail i ariannu ffilmiau Cymraeg. Clywsom am anawsterau o ran cael gafael ar gyllid ar gyfer ffilmiau Cymraeg. Gall hyn fod oherwydd y canfyddiad nad yw'r gynulleidfa arfaethedig yn ddigon mawr i gyfiawnhau'r buddsoddiad neu gallai fod oherwydd cryfder y cynyrchiadau teledu sy'n amsugno'r cyllid a'r dalent sydd ar gael.

Rydym yn glir bod yna fantais ddiwylliannol i ariannu ffilmiau Cymraeg sy'n gorbwyso'r gofynion am elw masnachol ar fuddsoddiad. Mae ffilmiau yn y Gymraeg yn hyrwyddo ein gwlad ac yn sefydlu ein hunaniaeth ar lwyfan byd-eang. Ni ellir mesur natur unigryw ein cynnig diwylliannol yn ariannol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ymrwymiad clir a chyhoeddus iawn i gyllido ffilmiau Cymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru ar lefel ryngwladol.

Mae gan S4C rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o ddarparu ffilmiau Cymraeg. Gyda'i phrofiad a'i harbenigedd mae'r gallu gan S4C i greu ffilmiau o'i gymharu â newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. Clywsom dystiolaeth fod cyllid ar gael o'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i gefnogi cynnyrch mewn ieithoedd lleiafrifol. Byddwn yn cysylltu ag S4C i ddarganfod eu

blaenoriaethau a'u hamserlen o ran comisiynu ffilmau yn y Gymraeg, yn enwedig, os ydynt wedi cael gafael ar gyllid o goffrau'r DCMS.

Yr angen i gefnogi diwydiant cynhenid

Clywodd y Pwyllgor gan gynhyrchwyr bod arian cyhoeddus wedi'i anelu at ddau ben y sbectwm cyllideb. Credwn fod angen targedu buddsoddiad i gynnal diwydiant cynhenid trwy dyfu cwmnïau llai. Awgrymwyd y dylai'r Llywodraeth orfodi cynyrchiadau mwy i ymrwymo i gyd-gynhyrchu â chwmnïau yng Nghymru fel amod ariannu.

Clywodd y Pwyllgor am yr angen i sicrhau bod Cymru yn derbyn budd diwylliannol yn ogystal ag elw masnachol ar fuddsoddiad cyhoeddus. Pan ddaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i'n cyfarfod, gwnaeth bwynt dilys am yr anhawster o ran dosbarthu cynyrchiadau fel rhai "diwylliannol" neu "fasnachol" a dadleuodd fod gwerth i'r ddau. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n ceisio cyllid, mae canfyddiad bod yr arian sydd ar gael yn arian ar gyfer cynyrchiadau mawr neu gynyrchiadau llai, llai masnachol. Mae hyn yn dylanwadu ar sut mae cynhyrchwyr yn targedu eu ceisiadau, ac yn eu tro, ar sut y caiff y ceisiadau hynny eu hasesu.

Mae cefnogi cwmnïau cynhyrchu cynhenid yn tyfu diwydiant lleol cynaliadwy a, gobeithio, yn cynyddu nifer y cynyrchiadau Cymreig unigryw.

Dylai fod mwy o hyblygrwydd ym mhroses ariannu Llywodraeth Cymru. Dylai dyfarniadau cyllid ganiatáu ar gyfer cynyrchiadau nad ydynt o reidrwydd wedi'u hanelu at greu elw ariannol mawr. Fel hyn, gall y diwydiant feithrin cwmnïau llai i gyflawni eu potensial a chynnal diwydiant sgrin hirdymor yng Nghymru.

Er mwyn datblygu ein diwydiant sgrin cynhenid, rydym yn galw am fwy o eglurder ynghylch yr hyn a ystyrir yn "wariant Cymreig". Rydym yn awyddus i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn elwa ar arian cyhoeddus. Rydym yn cynnig diffiniad o "wariant Cymreig" sy'n cynnwys gofyniad mai'r diffiniad o gyflenwyr, cast, criw a chyfleusterau lleol yw'r rhai sydd wedi'u cofrestru a'u lleoli yng Nghymru.

Hoffem wybod pa mor realistig fyddai gwneud cydgynhyrchu â chwmnïau yng Nghymru yn orfodol fel un o amodau darparu cyllid ar gyfer cynyrchiadau mwy.

Cymhlethdod cael gafael ar gyllid

Siaradodd y rhai â phrofiad uniongyrchol o wneud cais am gyllid am eu rhwystredigaeth am yr amser mae'n cymryd a'r gyfradd elw uchel sydd ei

hangen i gael gafael ar gyllid. Yn ddealladwy, mae gwiriadau diwydrwydd dyladwy cadarn yn angenrheidiol i ddiogelu arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r diwydiant yn ddeinamig a siaradodd y rhanddeiliaid y clywsom ganddynt am y posibilrwydd y bydd Cymru yn colli cyfleoedd oherwydd y canfyddiad o weithdrefn gyllido rhy feichus.

Yn yr un modd ag y dylai fod hyblygrwydd o ran maint dyfarniadau cyllid, dylid cael proses ymgeisio y gellir ei haddasu i faint y cynyrchiadau. Rhaid ystyried hefyd y risg o fod ar ein colled o ran cynyrchiadau o ganlyniad i weithdrefn ymgeisio rhy gymhleth ochr yn ochr â'r broses diwydrwydd dyladwy.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio model cyllido y gellir ei addasu sy'n caniatáu ar gyfer cynyrchiadau o bob maint.

Argymhelliad 5. Dylid cynllunio polisi cyllido Llywodraeth Cymru i feithrin diwydiant sgrin cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r opsiwn o'i gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n derbyn cyllid lunio cytundebau cydgynhyrchu â chwmnïau yng Nghymru. Dylai'r gofyniad i wario o leiaf 35% o'r gyllideb gynhyrchu "islaw'r llinell" ar gyflenwyr, cast, criw a chyfleusterau lleol fod yn berthnasol i fusnesau sydd wedi'u cofrestru a'u lleoli yng Nghymru.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio model symlach ar gyfer ceisiadau am gyllid sy'n ddeniadol i gynhyrchwyr a chyd-fuddsoddwyr ac sy'n bodloni gofynion diwydrwydd dyladwy.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru lunio polisi cyllido cliriach ar gynyrchiadau Cymraeg a ddylai gyd-fynd â [Strategaeth y Gymraeg 2050](#).

Argymhelliad 8. Dylai S4C nodi ei blaenoriaethau o ran comisiynu ffilmiau Cymraeg a sut y mae wedi cael gafael ar yr holl gyllid sydd ar gael i wneud hynny.

5. Sgiliau

Mae gweithlu medrus yn hanfodol i gyflawni potensial ein diwydiant sgrin sy'n datblygu. Mae angen inni sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod am ac yn cael eu denu at swyddi yn y diwydiant a bod ganddynt fynediad at y swyddi hynny er mwyn gwireddu manteision y mewnfuddsoddi i Gymru yn llawn.

Sicrhau bod Cymru yn meddu ar y sgiliau i gefnogi'r diwydiant

59. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan dystion mai'r ffactor mwyaf o bosibl sy'n cyfyngu ar dwf yn y diwydiannau sgrin yng Nghymru yw prinder sgiliau. Nododd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales, faint y cyfle. Dywedodd:

“Because of the growth in high-end television across the world, because of the emergence of new players like Amazon and Apple and Netflix, the demand for high-end television skills is at an unprecedented level.”⁴⁴

60. Rhybuddiodd Natasha Hale o Bad Wolf na fydd modd darparu ar gyfer y diwydiant yn y dyfodol os bydd yn parhau i dyfu gormod heb ddatblygu talent a sgiliau.⁴⁵ Dywedodd Gareth Williams, o TAC, ei bod yn anochel y bydd cyfnod yn dod “lle, rhywle yn y gadwyn yna o bopeth yn ffilmio ar yr un pryd, mae yna brinder. Ac wedyn, mae'n allweddol ein bod ni'n gallu cyfeirio at hwnnw a'i gael e'n iawn nawr, er mwyn gwarchod rhag bod yna lai o gynyrchiadau'n dod yn y pen draw. Rydym ni'n moyn iddo fe dyfu”.⁴⁶

61. Roedd ymateb ITV Cymru i'r ymgynghoriad yn nodi bod Skillset Cymru wedi dirwyn i ben bellach a bod risg y bydd bwlch o ran strategaeth a chyllid yn datblygu ym meysydd hollbwysig mapio data'r sector, ymchwil a datblygu, a datblygu sgiliau.⁴⁷

62. Clywodd y Pwyllgor y bydd cau Creative Skillset Cymru yn cael effaith negyddol ar hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i'r rhai sy'n ceisio ymuno â'r

⁴⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 24

⁴⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 16 Mai 2018, para 216

⁴⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 315

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig ITV Cymru

diwydiant. Soniodd Faye Hannah, Cyfarwyddwr dros dro Creative Skillset Cymru rhwng 2010 a 2014, am gau Creative Skillset Cymru ac effaith hynny:

“In 2015, Creative Skillset Cymru (after 13 years of presence) ceased to exist in Wales ... Since 2015, screen industries in Wales have experienced a gap in terms of the challenge of joining up, funding and supporting skills development and their talent pipeline across the board. This has specifically impacted independent production companies and freelance individuals in terms of targeting support where industry say it is most needed.”⁴⁸

63. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Ffilm Cymru fod dadl gref dros ailsefydlu panel hyfforddi â mwy o ffocws ar y sector sgrin sy'n annibynnol ar Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau neu Banel Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi hefyd bod galw am gymorth busnes gwell a hyfforddiant lefel uchel i gwmnïau yn cynyddu wrth i'r sector aeddfedu.⁴⁹

64. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Screen Alliance Wales wedi cael ei sefydlu i geisio hyrwyddo profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi. Mae'n gwmni dielw a grëwyd gan y cwmni cynhyrchu Bad Wolf. Ei nod yw dod â chyrrff cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i addysgu, hyfforddi a hyrwyddo criwiau a seilwaith teledu ledled Cymru.⁵⁰

65. Aeth y Pwyllgor i weld ffilm yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter yng Nghaerdydd o waith disgyblion o Ysgol Treganna. Yno, cafwyd dangosiad cyntaf o ffilm fer a gynhyrchwyd gan blant Blwyddyn 5 fel rhan o'r prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol. Enw'r ffilm yw “Diwedd y Byd”, a dangoswyd hefyd sut mae ffilm yn cael ei defnyddio yn yr ystafell ddosbarth i ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Crëwyd argraff ar yr Aelodau gan ansawdd y gwaith, a chan amrywiaeth y sgiliau a'r wybodaeth y disgyblion yn eu gwaith gyda Into Film Cymru. Dangosodd y gwaith allu'r disgyblion i ddysgu sgiliau yn yr ysgol a fydd yn agor y ffordd at yrfa yn y diwydiannau creadigol, a hefyd sut y gellir defnyddio ffilm i wella eu haddysg ar draws y cwricwlwm.

Yr angen am ddata gweithlu

66. Clywodd y Pwyllgor fod diffyg data ar y gweithlu. Er enghraifft, nododd Dr Noonan o Brifysgol Caerdydd ei bod yn amlwg bod bwlch gwybodaeth o ran y

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Our CoLab

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru

⁵⁰ www.screenalliancewales.com/about-us/

farchnad lafur greadigol yng Nghymru.⁵¹ Hefyd, dywedodd Luned Whelan o TAC, bod “TAC yn cydweithio gydag S4C ar gynllun hyfforddiant tymor hir i adfer y sgiliau lle rŷm ni’n gweld fod yna fylchau. Rŷm ni wedi cynnal ymchwil ymhlith yr aelodau, ond nid ydym ni’n gallu dod o hyd i unrhyw ystadegau ystyrlon o’r diwydiant yn benodol yng Nghymru”.⁵²

67. Nid yw graddfa unrhyw brinder sgiliau yn hysbys. Eglurodd Dr Ruth McElroy o Brifysgol De Cymru mai un o’r problemau mawr yw diffyg data sylfaenol da.⁵³ Dywedodd Faye Hannah fod bwlch gwybodaeth o ran deall demograffeg ac anghenion y sector sgrin yn iawn yng Nghymru.⁵⁴

Cyfleoedd hyfforddi

68. Clywodd y Pwyllgor am y ffyrdd y darperir hyfforddiant yn y gwaith. Er enghraifft, nododd Canolfan Ffilm Cymru y BFI fod nifer o gynigion ar gael i dalent newydd yng Nghymru o Rwydwaith Talent Cymru y BFI i TAC, It’s My Shout a Cult Cymru. Mae Into Film a Phrifysgolion megis Prifysgol De Cymru hefyd yn gweithio i fynd i’r afael â diffyg darpariaeth addysg ffilm mewn ysgolion ac amgylcheddau addysg uwch.⁵⁵

69. Mae BAFTA Cymru yn nodi’r ystod o ymyriadau i ddatblygu sgiliau a gynhelir ganddo, gan gynnwys dosbarthiadau meistr gydag enillwyr gwobrau ym Mhrifysgolion a Cholegau Cymru; sgysiau ar ddatblygiad gyrfa gan brif gynhyrchwyr, actorion, ysgrifenywyr a chyfarwyddwyr, paneli comisiynwyr â sianelau rhyngwladol, partneriaethau Gŵyl Ffilm i annog pobl o bob cefndir i ystyried gyrfaedd yn y diwydiant a mwy.⁵⁶

70. Mae nifer o dystion wedi galw am fuddsoddiad strategol mewn sgiliau i alluogi Cymru i fanteisio ar y twf a ragwelir yn y sector sgrin yn y DU. Galwodd Natasha Hale o Bad Wolf ar Lywodraeth Cymru i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer hyfforddeiaethau. Dywedodd y bydd o leiaf £95,000 o bob cynhyrchiad sy’n defnyddio eu cyfleusterau yn cael ei wario ar hyfforddiant a phrentisiaethau, a ddarperir drwy Screen Alliance Wales.⁵⁷

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd

⁵² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 312

⁵³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 384

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Our CoLab

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Canolfan Ffilm Cymru y BFI

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig BAFTA Cymru

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Bad Wolf

71. Mae tystiolaeth bod hyfforddiant yn y gwaith yn ffordd effeithiol o ddysgu ond ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd hyfforddi. Dywedodd Rhiannon Hughes o'r wyl ffilm ieuencid, *Wicked Wales*, wrth y Pwyllgor ei bod yn bwriadu dechrau cylchlythyr ar-lein i ddarparu gwybodaeth i bobl ifanc, i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth, yn enwedig i'r rhai yng Ngogledd Cymru. Siaradodd Tom Ware o Brifysgol De Cymru am eu lleoliadau gwaith a'r myfyrwyr a dderbynnir:

“Our undergraduate courses and our students tend to overwhelmingly come from a fairly narrow demographic area. They come from south-east Wales, but also south-west England and the west Midlands – that effectively is our core area for student recruitment.”⁵⁸

72. Clywsom am yr anhawster yr oedd rhai cyflogwyr yn ei gael wrth gynnig prentisiaethau oherwydd natur tymor byr llawer o gynyrchiadau. Esboniodd Rosina Robson o PACT yr anhawster:

“not only is the apprenticeship levy very tricky from a production sector point of view, because of the way productions are managed – as they might only last for six months, it's very difficult for a production company to, within the framework of the apprenticeship levy, provide an experience that's appropriate and in line with what the levy requires and what the conditions of the levy require. I think there are also additional issues in Wales, because of the devolved aspects of apprenticeships and education. So, I think, maybe, there are some issues there that, perhaps, the Welsh Government can support and continue to work on.”⁵⁹

Darparu cyfleoedd castio lleol

73. Clywodd y Pwyllgor fod cryn rwystredigaeth bod sesiynau castio ar gyfer cynyrchiadau mawr i'w ffilmio yng Nghymru yn cael eu cynnal yn Llundain gan amlaf. Er enghraifft, dywedodd Simon Curtis o Equity wrth y Pwyllgor fod clyweliadau yn cael eu cynnal yn Llundain oherwydd yn aml mae'n rhaid i gastio ddigwydd o fewn terfynau amser byr. Nododd ei fod yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser i actorion o Gymru deithio. Dywedodd fod aelodau Equity eisiau trefniadau castio lleol, y gallu i gael eu gweld ar gyfer cynhyrchiad sy'n cael ei

⁵⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 10 Mai 2018, para 294

⁵⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 324

gynhyrchu yng Nghymru, ac yn bwysicach fyth, cael eu cyllido o Gymru.⁶⁰ Galwodd am i amodau fod ynghlwm â chyllid:

“We are therefore looking for a condition of investment to be that Local talent is given an opportunity to audition and for that audition to be held in the area of the production base.”⁶¹

74. Clywodd y Pwyllgor y gall fod anawsterau o ran pennu cwota ar gyfer talent ar sgrin yn yr un modd â'r gofyniad i 35% o'r rhai a gyflogir mewn galwedigaethau “islaw'r llinell” gael eu cyflogi'n lleol. Mewn ymateb i gwestiwn gan Siân Gwenllian AC ynghylch a ddylid cyflwyno cwota ar gynyrchiadau yng Nghymru sy'n nodi y dylent gyflogi nifer penodol o actorion Cymreig er mwyn cael arian grant gan y Llywodraeth, dywedodd Simon Curtis:

“So, I don't think an on-screen quota would work, necessarily, because it's putting a restriction. I think if you're looking at it from a perspective of a quota as to how many casting sessions they hold in the production base—. It is slightly farcical when we get reports of our members on a train to London, they meet up with each other, they find that there are 20 of their friends on the same train, and they find they're going to the same casting to meet one person, and they're all coming from a specific area. It's difficult. It has an economic impact as well, because obviously they're having to fund that travel, and that provides another barrier.”⁶²

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

75. Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet:

“Yn hanesyddol, mae cylch gwaith tîm Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar dyfu'r sector a helpu busnesau i dyfu, yn hytrach na sgiliau. Er gwaethaf hynny, erbyn 2012, roedd hi'n amlwg na ellid cynnal unrhyw fomentwm twf yn y diwydiant sgrin oni bai bod cymorth ar gyfer datblygu sgiliau'r diwydiant a gwella'r biblinell talent.”

⁶⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Mehefin 2018, para 221

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Equity

⁶² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 June 2018, para 233

76. Mae'n mynd rhagddo i restru nifer o ymyriadau sgiliau, gan gynnwys ariannu lleoliadau ar "Da Vinci's Demons" a pherthynas waith â sefydliadau addysgol. Yna, mae'n nodi:

"Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd Cymru Greadigol yn cyfrannu at bolisi a gweithgarwch i gynhyrchu gweithlu mwy o faint a mwy medrus i wasanaethu'r sector."

77. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd gan Cymru Greadigol rôl wrth ddatblygu sgiliau:

"Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Skillset Creadigol ac eraill ynglŷn â sut y gallwn ni gydweithio, yn cydnabod ble mae gwendidau wrth sicrhau llif o bobl sy'n abl i fynd i weithio i'r diwydiant."⁶³

78. Mewn ymateb i gwestiwn am rôl Cymru Greadigol o ran mynd i'r afael â bylchau sgiliau, dywedodd swyddog y Gweinidog:

"we will have people on the ground helping to map, working with people like Screen Alliance Wales, mapping the provision, working out where the gaps are, and then working really closely with the colleges — the FE colleges and the HE colleges — and also, where we haven't got people delivering what we need to deliver, helping to put structures in place to do that as well. You will know that one of the main ways of learning in film and tv in particular is on the job, and it's very difficult to have apprenticeships because the productions don't often run long enough for them to do that. So, it's looking at different structures for things like that, and how we can better improve that and get more people upskilled in the industry, so that it will absolutely focus on that."⁶⁴

Ein Barn Ni – Sgiliau

Mae perygl o golli momentwm os nad oes gennym ddigon o weithwyr medrus i gefnogi ein diwydiant sgrin sy'n tyfu.

Clywsom lawer o enghreifftiau o arfer da, megis cynyrchiadau mawr sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a mentora. Er enghraifft, mae'r diwydiant yn ariannu "It's My Shout" i gynnig cyfleoedd cynhyrchu ffilm i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ddi-dâl a hoffem weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar brentisiaethau drwy

⁶³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 284

⁶⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 12 Gorffennaf 2018, para 311

gynyrchiadau a gefnogir gan arian cyhoeddus. Nodwyd yr anawsterau o ran darparu prentisiaethau trwy gynllun prentisiaethau modern y Llywodraeth a'r bwriad i geisio'u datrys. O ystyried lefelau'r cyllid sy'n cael ei fuddsoddi yn y diwydiant sgrin a'r gofynion ar gwmnïau cynhyrchu sy'n derbyn arian cyhoeddus i ddarparu hyfforddiant yn y gwaith, mae'n rhaid ei bod yn bosibl goresgyn yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo lleoliadau gwaith byrrach i sicrhau y gellir cynnig prentisiaethau modern mewn cynyrchiadau ffilm.

Strategaeth sgiliau

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r gwaith o nodi ble mae'r gwendidau o ran argaeledd y gweithlu. Rydym yn galw arnynt i fynd ymhellach a chynnwys y gofyniad i lunio strategaeth sgiliau yng nghylch gorchwyl Cymru Greadigol. Dylai'r strategaeth hon roi data cywir ar ein gweithlu presennol; nodi prinder sgiliau a gweithio gyda darparwyr i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd profiad gwaith.

Cyfleoedd castio

Mae gennym y gweithlu medrus i gefnogi gynyrchiadau mawr, mewn rolau ar sgrin ac "islaw'r llinell". Fodd bynnag, os nad yw'n ofynnol i gyfarwyddwyr castio gynnal clyweliadau lleol, yna mae hyn yn gorfodi actorion i deithio i Lundain, sy'n ddrud ac yn dreth ar amser. Rydym eisiau i'r cyfleoedd gael eu lledaenu'n ehangach na De-ddwyrain Lloegr, yn arbennig os bydd y cynhyrchiad yn cael ei gefnogi gan arian cyhoeddus. Rydym yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i gynyrchiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru gynnal o leiaf un clyweliad lleol.

Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r arbenigedd sydd ganddi yn y diwydiant i ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai pennu cwota ar gyfer actorion Cymreig ar sgrin fel rhan o'u cynnig cyllido.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Cymru Greadigol lunio strategaeth sgiliau sy'n:

- darparu gwybodaeth am y gweithlu medrus yn niwydiant sgrin Cymru;
- archwilio'r hyfforddiant a'r lleoliadau gwaith sy'n cael eu cynnig ar bob lefel o addysg, gan gynnwys ysgolion;
- nodi sut y caiff bylchau sgiliau eu llenwi; a

- cheisio mewnbwn gan undebau a chyflogwyr ar anghenion sgiliau'r diwydiant yn y dyfodol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer cynyrchiadau mawr yn cynnwys gofyniad i gynnal o leiaf un clyweliad lleol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cwota ar gyfer talent lleol ar sgrin ar gyfer cwmnïau sy'n derbyn cyllid.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gall eu cynlluniau prentisiaeth gael eu defnyddio gan y diwydiant sgrin.

6. Gwyliau ffilm

Mae gwyliau ffilm yn rhan hanfodol o'n diwydiant sgrin. Maent nid yn unig yn caniatáu inni arddangos ein doniau a'n diwylliant yn rhyngwladol, ond maent hefyd yn darparu gweithgareddau allgymorth cymdeithasol a diwylliannol pwysig i ehangu effaith ddiwylliannol diwydiant sgrin Cymru.

79. Clywodd y Pwyllgor pa mor bwysig yw hi i wneuthurwyr ffilm allu mynychu gwyliau ffilm tramor i hyrwyddo cynrychiadau Cymreig a rhwydweithio ag eraill. Er enghraifft, dywedodd Gareth Williams o TAC:

“mae rhai o'n haelodau ni wedi cysylltu â ni yn diolch am ac yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd wedi bod i'w helpu nhw o ran costau mynychu marchnadoedd, o ran costau teithio i fynd iddyn nhw, costau cofrestru i fynd iddyn nhw. ... Rwy'n credu ei fod e'n hollbwysig bod talent greadigol yn cael mynd i farchnadoedd, achos yn y llefydd hynny, yn aml iawn, maen nhw'n cwrdd â chynhyrchwyr a dosbarthwyr, darlledwyr eraill, ac yn dechrau gallu rhoi *deals* yn eu lle.”⁶⁵

80. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at werth yr arian sydd ar gael i dalu costau teithio i gynrychiolwyr y diwydiant fynychu gwyliau ffilm dramor. Er enghraifft, dywedodd Lacey Small o wyl ffilm ieuenctid *Wicked Wales* fod y bwrsari a ddarparwyd gan y BFI iddi hi fynychu digwyddiadau yn Llundain yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond mai dim ond 50% o'i chostau yr oedd yn ei dalu. Dywedodd fod treuliau o'r fath yn afresymol i'r rhan fwyaf o bobl ifanc.⁶⁶ Dywedodd Luned Whelan o TAC, sy'n cynrychioli cynhyrchwyr:

“Roedd nifer o aelodau sy'n gwmnïau sefydlog ers blynnyddoedd maith yn arfer cael cymorth i fynd i farchnadoedd... ond mae hynny wedi dirwyn i ben. Mae llawer o'r cwmnïau llai... wedi ffeindio bod hynny wedi bod yn rhwystr iddyn nhw.”⁶⁷

⁶⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 255

⁶⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 478

⁶⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 289

81. Clywodd y Pwyllgor hefyd am werth cymdeithasol ac addysgol gwyliau ffilm y tu hwnt i werth diwylliannol sgrinio ffilmiau. Er enghraifft, rhoddodd Berwyn Rowlands o Wyl Iris Prize enghraifft o'u gwaith allgymorth:

“cawsom ni 130 o fenywod o'r Women's Institute Birchgrove, a oedd wedi bod yn rhan o gynllun...lle yr ydym ni'n mynd allan i gymunedau yng Nghymru ac yn gofyn i bobl ddefnyddio ffilm ac archif Iris i greu gwyliau ffilm bach iddyn nhw eu hunain.”⁶⁸

82. Mae arian cyhoeddus ar gyfer gwyliau yn hanfodol i'w llwyddiant. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ei fod yn darparu'r sail ar gyfer denu a chadw nawdd corfforaethol. Derbyniodd Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caerdydd a Gŵyl Iris Prize gyllid o Gyllideb Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru. Tynnodd Berwyn Rowlands sylw at yr ymrwymiad a ddangoswyd gan yr awdurdod lleol i ariannu Gŵyl Iris Prize ac anawsterau awdurdodau lleol o ran cefnogi gweithgareddau diwylliannol oherwydd toriadau.⁶⁹

83. Cytunodd Rahil Sayed, Prif Weithredwr Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caerdydd, fod cyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i ddenu noddwyr corfforaethol. Dywedodd:

“I think there's definitely a strong appetite from corporates to fund international events, definitely... you have to have that infrastructure, backbone funding, and that will help you elevate to the next level. The risk is that if your backbone funding is taken off you then you don't have the resources to invest, to reach out to the corporate.”⁷⁰

84. Pwysleisiodd Rhiannon Hughes, Cyfarwyddwr Gŵyl Ffilm Ieuenctid Wicked Cymru, fod gwerth addysgol a chymdeithasol yr Wyl yr un mor bwysig â'r llwyfan y maent yn ei ddarparu i arddangos ffilmiau Cymreig yn rhyngwladol. Tynnodd sylw at y ffaith fod y gwaith a wneir gan Wicked Cymru yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru i ddatblygu pobl ifanc a chefnogi busnesau ond ei fod yn disgyn drwy'r bylchau ariannu. Dywedodd:

“We are not quite education because we are working with but outside of the learning institutions, we are not quite tourism even though we have brought over 50 international guests to Wales over the last couple

⁶⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Mehefin 2018, para 11

⁶⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Mehefin 2018, para 75

⁷⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Mehefin 2018, para 171

of years and taken the Welsh flag and brochures to 9 other Countries, we are not quite regeneration but we could be.”⁷¹

Ein Barn Ni - Gwyliau ffilm

Mae gwyliau yn rhan hanfodol o'r diwydiant sgrin yng Nghymru. Maent nid yn unig yn ein galluogi i arddangos diwylliant Cymru yn rhyngwladol, ond maent yn gwneud gwaith addysgol ac allgymorth yn lleol, gan ymgysylltu â'r gynulleidfa a rhoi cyfle unigryw iddyn nhw gyfrannu at y diwydiant ffilm.

Mae angen cymorth ariannol ar y gwaith hwn. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid drwy'r gyllideb ar gyfer Digwyddiadau Mawr i Wyl Iris Prize a Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caerdydd. Fodd bynnag, mae digwyddiadau ar raddfa lai, fel gŵyl ffilm ieuencid Wicked Wales na allant gael gafael ar gyllid yn rhwydd oherwydd bod eu gwaith wedi'i gynllunio o amgylch prosiectau yn hytrach nag un digwyddiad.

Byddai ffrwd ariannu ar gyfer cefnogi gwyliau ffilm yn rhoi sicrwydd y byddai'r ymdrechion i ddechrau a chynnal y gweithgaredd diwylliannol hanfodol hwn yn parhau pe bai prinder nawdd corfforaethol. Ni fyddai'n cymryd lle cyllid preifat ar gyfer mentrau o'r fath, ond fel hyn gallant gynnal eu hannibyniaeth a'u hyfywedd ariannol.

Byddai darparu bwrsariaethau i fynychu gwyliau ffilm tramor yn galluogi hyrwyddo ein diwydiant sgrin Cymreig yn ehangach. Mae cynyddu gwelededd Cymru ar lwyfan y byd yr un mor bwysig i gynorthwyo'r diwydiant sgrin â chefnogi cynyrchiadau yng Nghymru. Mae mynychu gwyliau ffilm hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r rhai sy'n rhan o greu ffilmiau rwydweithio ac archwilio cyfleoedd ariannu a chydgyhyrchu pellach.

Gall Llywodraeth Cymru, a dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol i hyrwyddo ein diwydiant sgrin yn rhyngwladol. Dylid sicrhau bod y rhai yn y diwydiannau sgrin yng Nghymru yn gallu defnyddio teithiau masnach rhyngwladol Llywodraeth Cymru i rwydweithio ac arddangos eu cynyrchiadau.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid priodol i gefnogi gwyliau ffilm yng Nghymru drwy ffrwd ariannu benodol. Dylai'r arian hwn gael ei hyrwyddo'n eang a dylai gynnwys bwrsariaethau ar gyfer gwneuthurwyr ffilm o Gymru i fynychu gwyliau ffilm rhyngwladol.

⁷¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 24 Mai 2018, para 498

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi meini prawf penodol ar gyfer y canlyniadau y maent yn eu cefnogi wrth ddarparu cyllid ar gyfer gwyliau ffilm.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y diwydiannau sgrin yn cael eu cynnwys mewn teithiau masnach rhyngwladol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo ein diwydiant yn rhyngwladol.

7. Cymorth Llywodraeth Cymru i stiwdios ffilm

85. Yn ystod yr ymchwiliad, archwiliodd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â pherthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood Studios. Yna gofynnodd y Pwyllgor i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru edrych yn fanylach ar y contract rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Studios. Er cyflawnder, nodir y gwaith a wnaed yma.

86. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer stiwdios ffilm a theledu yng Nghymru, gan gynnwys Stiwdio Blaidd Cymru yng Nghaerdydd a Stiwdio Pinewood Cymru. Mae Stiwdio Pinewood Cymru yn cael ei redeg gan gwmni Pinewood dan gytundeb gwasanaethau rheoli mewn warws sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yng Ngwynllŵg.

87. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad yn nodi ffeithiau yn unig ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood ar 12 Mehefin 2018. Roedd hyn yn dilyn diddordeb yn y mater gan nifer o Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys aelodau'r Pwyllgor hwn. Roedd rhai o Aelodau'r Cynulliad wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am natur y berthynas ond wedi methu â chael y datgeliad llawn yr oedd arnynt ei eisiau. Caiff y berthynas ei chrynhai fel a ganlyn.

88. Yn 2014, prynodd Llywodraeth Cymru safle'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg, ger Caerdydd i'w ddatblygu fel stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood Shepperton Limited. Yn fuan wedyn, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i "Gytundeb Cydweithredol" gyda dau is-gwmni newydd Pinewood. Roedd y cytundeb yn golygu bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi stiwdio Gwynllŵg ar brydles i Pinewood;
- yn sefydlu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn (lle byddai Pinewood yn dod o hyd i gynyrchiadau addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru); ac
- yn noddi Pinewood i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r gyllideb fuddsoddi.

89. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac nid oedd Stiwdio Pinewood Cymru yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes gweithredol heb gefnogaeth Pinewood Group Limited.

90. Ym mis Hydref 2017, daeth Llywodraeth Cymru â'i Chytundeb Prydlesu a'i Chytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben, ac nid oedd gan Pinewood unrhyw gysylltiad a'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau wedi hynny. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i "Gytundeb Gwasanaethau Rheoli" newydd ar 1 Tachwedd 2017 ar gyfer gweithredu cyfleusterau stiwdio Gwynllŵg.

91. Cyhoeddwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar yr adeg pan oedd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn nesáu at ddiwedd ei ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru. Mae perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood yn rhan allweddol o'i chefnogaeth i'r diwydiant hwn, ac ystyriwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o ymchwiliad ehangach y Pwyllgor hwnnw.

92. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Medi 2018⁷² yn nodi meysydd yr oedd y Pwyllgor yn teimlo eu bod yn haeddu sylw pellach. Cymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dystiolaeth gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ar 5 Tachwedd 2018 gan ddefnyddio'r cyfle i:

- ystyried y materion allweddol a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood; ac
- archwilio'r pryderon penodol a fynegwyd am y berthynas hon gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

93. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad ar ei ganfyddiadau ar 18 Chwefror 2019.

Ein Barn Ni - Cymorth Llywodraeth Cymru i stiwdios ffilm - Tryloywder

Mae'n siomedig ac yn rhwystredig bod angen cael adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru i ddatgelu natur y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru â Pinewood. Ymddengys fod cyfrinachedd masnachol wedi cael ei ddefnyddio'n rhy hawdd gan Lywodraeth Cymru er mwyn osgoi craffu ar sefyllfa lle y mae bellach wedi cyfaddef nad yw'n cynrychioli gwerth da am arian.

Oherwydd bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys "ffeithiau yn unig", ac felly nid yw'n cynnwys unrhyw argymhellion, mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei

⁷² Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor PDGC, 28 Medi 2018, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 28 Medi 2018

berthynas â Pinewood. Bydd hyn yn helpu i ateb rhai o bryderon difrifol y Pwyllgor am y diffyg tryloywder a ddangosodd Llywodraeth Cymru yn y mater hwn a'r parodrwydd i dderbyn amcangyfrifon gor-optimistaidd o elw ar fuddsoddiad gan Pinewood.

Rydym yn derbyn bod y cyfrifoldeb am ymwneud y Llywodraeth â Pinewood wedi digwydd cyn i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ymgymryd â'i swydd. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n rhwystredig gan fod yr Arglwydd Elis-Thomas AC yn ymddangos yn amharod i ateb cwestiynau am Pinewood yn fanwl yn y cyfarfod ar 12 Gorffennaf 2018.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o eglurder a thryloywder wrth gyfathrebu gyda Phwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fyddant yn trafod mentrau tebyg yn y dyfodol.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch:

- y ffigurau diweddaraf o ran gwariant ac elw ar fuddsoddiad o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau;
- yr incwm rhent a dderbynnir gan Bad Wolf a sut mae'n cymharu ag unrhyw gostau parhaus a ddaw i ran Llywodraeth Cymru, ac
- a yw safle Gwynllŵg bellach yn cynhyrchu elw i Lywodraeth Cymru ai peidio.

8. Camau Nesaf

Ers i'r ymchwiliad hwn ddod i ben, cyhoeddwyd y bydd cwmni cynhyrchu Bad Wolf yn prydlesu Stiwdios Pinewood Cymru yng Nghymru oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'r ymchwiliad wedi amlygu'r cynnydd aruthrol a wnaed gan ein diwydiannau sgrin yn y degawd diwethaf. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran ac yn diolch iddynt am eu hamynedd wrth aros am yr adroddiad.

Clywodd y Pwyllgor gan dros 30 o sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â chyflawni, cefnogi a hyrwyddo ffilmiau a chynyrchiadau teledu mawr o Gymru. Fodd bynnag, mae agweddau nad oeddem yn gallu eu cynnwys, megis ffrydio ar-lein. Bydd y Pwyllgor yn ailystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn ac yn mynd i'r afael â'r pynciau eraill hyn yng Ngwanwyn 2019.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell camau gweithredu i Lywodraeth Cymru ac S4C, ond rydym hefyd yn cydnabod bod nifer fawr o sefydliadau eraill sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo ein diwydiannau sgrin. Byddant hefyd yn rhan o'r adolygiad yng Ngwanwyn 2019. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn ceisio mwy o fewnbwn gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r modd mae eu polisiau ar gyfer diwydiannau creadigol y DU yn berthnasol i Gymru.

Atodiad A

Clywodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu dystiolaeth lafar gan yr unigolion a'r sefydliadau canlynol.

Mae trawsgrifiadau a fideos o'r cyfarfodydd i'w gweld ar ein gwefan:

Dyddiad	Enw a Sefydliad
18 Ebrill 2018	Pauline Burt, Prif Weithredwr, Ffilm Cymru Michael Gubbins, Cadeirydd, Ffilm Cymru Phil George, Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru
10 Mai 2018	Ed Talfan, Cynhyrchydd-Gyfarwyddwr, Severn Screen Dewi Gregory, Cynhyrchydd, Truth Department Catrwn Ramasut, Cynhyrchydd, Rheolwr Gyfarwyddwr, ie ie Productions Roger Williams, Cyfarwyddwr, Joio Dr Ruth McElroy, Athro Diwydiannau Creadigol, Prifysgol De Cymru Faye Hannah, Cyfarwyddwr, Our COLAB Tom Ware, Pennaeth Ysgol Ffilm a Theledu Cymru, Prifysgol De Cymru Dr Caitriona Noonan, Darlithydd yn y Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Caerdydd Angharad Mair, Cadeirydd, Bafta Cymru Sally Griffith, Cyfarwyddwr Ffilm a Sinema, Chapter Hana Lewis, Rheolwr Strategol, Canolfan Ffilm Cymru Euros Lyn, Cyfarwyddwr Julian Lewis Jones, Actor
16 Mai 2018	Paul Higgins, Cadeirydd, Dragon Digital Limited Andrew M. Smith, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, Pinewood Group Ltd Jane Tranter, Sylfaenydd, Bad Wolf Natasha Hale, Prif Swyddog Gweithredu, Bad Wolf
24 Mai 2018	Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales Simon Winstone, Pennaeth Drama, BBC Studios Owen Evans, Prif Weithredwr, S4C Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol, S4C Gareth Williams, Cadeirydd, TAC

	<p>Luned Whelan, Rheolwr Gweithredol, TAC</p> <p>Rosina Robson, Cyfarwyddwr y Cenedloedd a'r Rhanbarthau, PACT</p> <p>Gillane Seaborne, cynrychiolydd etholedig yng Nghymru, PACT</p> <p>Anwen Griffiths, Rheolwr Materion Busnes, BFI</p> <p>Jack Powell, Uwch Ddadansoddwr Polisi, BFI</p> <p>Rhiannon Hughes, Cyfarwyddwr yr Ŵyl, Wicked Wales</p> <p>Lacey Small, Gwirfoddolwr, Wicked Wales</p>
6 Mehefin 2018	<p>Steve Swindon, Prif Weithredwr, Gŵyl Ffilm yr Arfordir</p> <p>Kelvin Guy, Prif Weithredwr, Gŵyl Ffilm Bae Caerfyrddin</p> <p>Rahil Abbas Sayed, Cyfarwyddwr yr Ŵyl, Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caerdydd</p> <p>Berwyn Rowlands, Cyfarwyddwr yr Ŵyl, Iris Prize</p> <p>Iris Prize, Gwobr Ffilm Fer LGBT Rhyngwladol Caerdydd</p> <p>Simon Curtis, Trefnydd Cenedlaethol a Rhanbarthol Equity</p>
20 Mehefin 2018	<p>Ron Jones, Sylfaenydd a Chadeirydd Gweithredol, Tinopolis</p> <p>Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru</p> <p>Dafydd Elis-Thomas AC, Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru</p> <p>Mick McGuire, Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru</p> <p>Joedi Langley, Pennaeth y Sector Creadigol, Llywodraeth Cymru</p>
12 Gorffennaf 2018	<p>Dafydd Elis-Thomas AC, Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru</p> <p>Mick McGuire, Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru</p> <p>Joedi Langley, Pennaeth y Sector Creadigol, Llywodraeth Cymru</p>

Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau â Stiwdios Pinewood ar 2 Mai ac ysgolion ar 4 Gorffennaf 2018.

Atodiad B

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad:

Sgil Cymru
Sharon Morgan
Hijinx
Calon
Truth Department
Canolfan Ffilm Cymru
Helen O'Leary
Yr Athro Steve Blandford
Rhiannon Hughes
ITV Cymru
Urdd Awduron Prydain Fawr
David Ball
PACT
Ffilm Cymru Wales
Teledwyr Annibynnol Cymru
Bad Wolf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Joio
Screen Alliance Wales
Equity
Catrin Lewis Defis
Prifysgol Caerdydd
Creative Skillset
Bafta Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Into Film
BFI
BBC
Severn Screen
Our Colab
ie ie Productions
Dragon Digital
Screen Ireland
Llywodraeth Cymru